

Cartref/Bwyd/Ysgol

Dyma fy nghartref. Mae'r tŷ wedi ei wneud o frics ac mae to sinc arno. Mae trydan yn y tŷ ond does dim dŵr. Mae Dad yn gweithio yn y porthladd yn Mombasa.

Dw i'n cael gwersi Swahili, Saesneg, gwyddoniaeth, amaethyddiaeth, mathemateg, astudiaethau cymdeithasol ac addysg gorfforol yn yr ysgol. Dw i'n hoffi gwyddoniaeth a chwarae pêl-droed.

Amserlen ysgol Gitonga
Cyrraedd yr ysgol - 7.30 y bore
Gwersi - 8 o'r gloch
Amser chwarae - 9.30
Gwersi - 9.45
Amser chwarae - 11.30
Gwersi - 11.45
Amser cinio - 12.45 y prynhawn
Mynd adref o'r ysgol - 1.30



Dyma fy nghartref. Mae'r tŷ wedi ei wneud o fwd a gwellt ac mae to gwellt arno. Mae hi'n dywyll iawn y tu mewn i'r tŷ.

Mae Dad yn gweithio mewn planhigfa de yn Kericho. Mae Mam yn coginio ugali i swper.



● **Cyd-destun:** Cartrefi, bwyd ac ysgol yn Kenya.

● **Ffeithiau:** Mae tai traddodiadol Kenya wedi eu gwneud o fwd sych a tho gwellt, a does dim cyfleusterau modern ynddyn nhw. Maen nhw i'w gweld yn y wlad a lleoedd anghysbell, e.e. Kericho. Caiff tai mwy modern a fflatiau eu gweld mewn dinasoedd mawr fel Nairobi a Mombasa. O ran bwyd, mae llwythau cyntefig a ffermwyr yn bwyta llawer o gig gafr, cig eidion, pysgod neu gyw iâr gyda phlanhigion gwyrdd naturiol. Caiff y bwyd ei goginio y tu allan yn aml, gan ddefnyddio crochan a photiau ar dân agored. *Ugali* yw un o'r bwydydd mwyaf cyffredin yn Kenya, sef cynnyrch wedi ei wneud â blawd India corn a dŵr ac sy'n debyg i uwd neu does o ran gwedd. Mae llwyth yr El Molo (llwyth lleiaf Kenya) yn pysgota am fwyd yn Llyn Turkana gerllaw – pysgod fel draenogiaid y Nil. Cynaeafu cnydau traddodiadol y mae ffermwyr llwythi fel y Kikuyu a'r Luhya, e.e. sorgwm, miled/grawn bach, pys, ffa a thatws melys. Erbyn hyn caiff bwydydd mwy modern eu cynaeafu ganddyn nhw hefyd, fel coffi, te, siwgr, India corn, a ffrwythau a llysiau o bob math. Mae Kenya yn enwog am ei phlanhigfeydd te a choffi ac yn allforio llawer ohono – mae'r diwydiant hwn yn un pwysig i economi Kenya. Mae'r llywodraeth yn Kenya yn darparu addysg gynradd am ddim (6–14 oed), ac mae tua 85% o blant y wlad yn mynd i'r ysgol gynradd. Ond mae'r ganran sy'n mynd i'r ysgol uwchradd (14–18 oed) a sefydliadau addysg uwch (18–22 oed) yn dipyn is. Tlodi yw'r prif reswm dros hyn, gan fod rhieni yn gorfod talu am yr addysg uwchradd/uwch, ac mae llawer o'r plant yn rhy brysur yn helpu eu teuluoedd i weithio ar y tir, gofalu am y gwartheg, coginio, cario dŵr, ac ati.

● **Cyfeiriadau yn atlas 'O Bedwar Ban Byd 2':** tt. 2–3, 4–5 ac 8–9.

● **Sgiliau:** Bod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill a'u parchu; dechrau herio stereoteipiau; gofyn ac ateb cwestiynau; llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau; arbrofi ac archwilio, meddwl am beth allai ddigwydd pe bai ..., datblygu eu dealltwriaeth o gynllunio, dylunio, modelu, addasu a myfyrio.

● **Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd:** Lleoedd a phobl – dechrau sylwi ar wahaniaethau rhwng eu hardal eu hunain ac ardaloedd mewn rhannau eraill o Gymru a gwahanol rannau o'r byd. Fi fy hun a phethau byw: amodau tyfu planhigion.

● **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol:** Datblygu hunanddelwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn fel aelod o wahanol gymunedau, a deall eu Cymreictod eu hunain.

● **Datblygiad creadigol:** Celf, crefft a dylunio; profi traddodiadau a dathliadau

gwahanol ddiwylliannau, cael profiad o gerddoriaeth a dawnsiau o Gymru ac o ddiwylliannau eraill.

● **Cwestiynau i'w gofyn:** Sut mae cartref Gitonga yn wahanol i gartref Amondi? Sut mae cartrefi Gitonga ac Amondi yn wahanol i'ch cartref chi? Beth yw gwaith tad Amondi? Pam mae te yn tyfu yn Kenya? Ydych chi'n yfed te neu goffi? Ydych chi wedi ceisio tyfu planhigion? Ydych chi'n hoffi uwd? Fydddech chi'n hoffi mynd i'r ysgol yn Kenya? Pam? Sut mae amserlen ysgol Gitonga yn wahanol i'ch amserlen ysgol chi?

● **Tasgau ffocws/heriau:**

- Cynllunio a chreu modelau o gartrefi traddodiadol Kenya.
- Defnyddio bwydydd sych fel te a choffi i greu *collage* o dai yn Kenya.
- Cymharu amserlen ysgol yn Kenya gydag amserlen ysgol yng Nghymru a chwarae rôl – mynd i'r ysgol yn Kenya.
- Ysgrifennu cerdyn post/e-bost yn disgrifio ysgol a'r amserlen ysgol yng Nghymru.
- Creu ryseitiai a choginio bwyd fel y bwydydd yn Kenya, e.e. *ugali*.
- Arbrofi a thyfu planhigion neu flodau er mwyn darganfod a oes rhaid iddyn nhw gael dŵr i dyfu.

● **Gwaith ymchwiliol/ymestynnol:**

- Cymharu tai traddodiadol Kenya â thai y Celtiaid yng Nghymru ers talwm.
- Ymweld â siop/uwchfarchnad a chasglu nwyddau masnach deg.
- Coginio pryd o fwyd yn defnyddio'r nwyddau masnach deg a thrafod ystyr 'masnach deg' (e.e. pobl Kenya yn cael pris teg am y te a'r coffi).
- Ymchwilio i daith y blodau sy'n cael eu tyfu yn Kenya a'u hallforio i wledydd eraill.
- Ymchwilio i fathau gwahanol o de o Kenya a'u cymharu â the Cymreig.

● **Adnoddau:** atlas, glôb, te, coffi, offer celf a chrefft, ryseitiai a chynhwysion bwyd Kenya, offer coginio, offer digidol, bwyd masnach deg.

● **Geirfa:** tŷ, tai, cartref, llwyth, gwaith, ysgol, addysg, amserlen, pynciau, Swahili, astudiaethau cymdeithasol, porthladd, planhigfa de, crochan, tân agored, allforio, masnach deg, amaethyddiaeth.

● **Cymariaethau â diwylliant Cymru:** Cymharu arferion bwyd a bywyd yn y cartref; cymharu mynd i'r ysgol yn Kenya a Chymru. Dysgu geirfa Swahili, e.e. croeso – *karibu*, bwyd – *chakula*, ie – *ndiyo*, na – *hapana*. Yn ystod amser chwarae, a chyn i'r gwersi ddechrau yn y bore, maen nhw'n canu cân yn ysgolion Kenya – cymharu hyn ag ysgolion Cymru. Cymharu cynnyrch o Kenya ac o Gymru, e.e. te a choffi.